



Ysgolion annibynnol

Cwestiynau hunanfyfyrto i gynorthwyo i gryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion annibynnol

- A oes gennych weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol wedi'i seilio ar wella safonau dysgu a lles?
- A oes gennych ddealltwriaeth gywir o gynnydd eich disgyblion yn eu dysgu a'u lles? Pa ffynonellau tystiolaeth ydych chi'n eu defnyddio i lywio'r ddealltwriaeth hon?
- I ba raddau mae eich gwerthusiad o gynnydd disgyblion yn llywio'r gwaith o osod blaenoriaethau gwella ysgol gyfan?
- Pa ffynonellau eraill o dystiolaeth uniongyrchol ydych chi'n eu defnyddio i lywio eich gwerthusiad o waith yr ysgol?
- I ba raddau mae eich prosesau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar nodi meysydd ystyrion i'w gwella neu y cânt eu defnyddio i ddarparu tystiolaeth o gydymffurfio?
- I ba raddau y mae cynllunio gwelliant yn canolbwyntio ar wella safonau addysgu, dysgu a lles?
- Sut ydych chi'n cynnwys disgyblion a staff addysgu mewn prosesau hunanwerthuso? Sut maent yn cyfrannu at bennu blaenoriaethau gwella?
- Sut ydych chi'n cynnwys safbwyntiau rhanddeiliaid eraill?
- I ba raddau y mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn darparu cymorth penodol i athrawon a staff cymorth dysgu i wella ansawdd eu rolau addysgu?
- Sut mae rhaglenni dysgu proffesiynol yn cynorthwyo'r ysgol i gyrraedd ei nodau gwella?
- Pa mor dda mae perchnogion a llywodraethwyr (lle bo hynny'n berthnasol) yn deall meysydd i'w gwella'r ysgol a beth mae angen iddi ei wneud i gyflawni'r rhain? Pa mor effeithiol yw'r cymorth y mae perchnogion a llywodraethwyr yn ei gynnig?

Deunyddiau darllen pellach:

<https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/arweinyddiaeth-gwella-ysgolion-cynradd>

<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cynnwys-pob-un-or-staff-yn-y-broses-hunanwerthuso>